

Amserlen

Penderfyniadau

Panel Trwyddedu (Tacsi)

I BOB AELOD CYNGOR DINAS CASNEWYDD

Atodlen Penderfyniadau a gyhoeddwyd ar 1 Mehefin 2021

Gwnaeth y Panel Trwyddedu Tacsis y penderfyniadau canlynol ar **1 Mehefin 2021**, a ddaeth i rym ar unwaith.

Cynghorwyr: K Thomas, I Hayat, T Suller

Rhan 2

Eitemau Eithriedig neu Gyfrinachol

Mae'r eitemau canlynol yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Felly, nid yw adroddiadau a phapurau cefndir sy'n ymwneud â'r penderfyniadau hyn i'w cyhoeddi ac maent yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Ddeddf fel y maent yn ymwneud â chylchrediad i'r wasg a'r cyhoedd.

LIC PAN 04/21

Trwyddedau Llogi Preifat / Cerbydau Hacni

Penderfyniad

Gyrrwr DB

Ystyriodd y panel y dystiolaeth a gyflwynwyd, a daeth i'r casgliad y byddai'r gyrrwr yn cael ei drwydded wedi'i gohirio tan iddo basio'r prawf gwybodaeth (sy'n digwydd mewn un mis). Hoffai'r panel hefyd roi rhybudd i'r gyrrwr, gan nodi, os bydd unrhyw ddigwyddiadau pellach yn digwydd, y bydd yn cael ei ddwyn gerbron y panel eto. Cytunodd y panel hefyd y byddai adfer trwydded y gyrrwr yn amodol arno roi teledu cylch cyfyng yn ei gar, o fewn y 28 diwrnod nesaf. Y rheswm am hyn yw methiant dro ar ôl tro i ddatgelu materion sy'n codi, a methiant yr ymgeisydd i ddeall y goblygiadau ar gyfer diogelwch y cyhoedd. Mae'r panel yn mynnu safon uchel o ymddygiad, a gonestrwydd llwyr ac uniondeb, o'r gyrrwyr tacsi sydd wedi'u trwyddedu yng Nghasnewydd.

Gyrrwr AM

Trafododd y panel y dystiolaeth a gyflwynwyd, a phwysleisiodd eu bod yn anfodlon â natur gyrru yr ymgeiswyr, a'u bod yn anhapus gyda'r digwyddiadau honedig o godi tâl gormodol ar ddefnyddiwr cadair olwyn a pheidio â chynnig y lefel briodol o gymorth i berson anabl. O ganlyniad, hoffai'r panel roi rhybudd i'r gyrrwr, yn ogystal â gofyn iddo ddilyn cwrs pass-plus o fewn y 4-6 mis nesaf. Yn ogystal, penderfynodd y panel y byddai hyn yn amodol ar yr ymgeisydd yn gosod teledu cylch cyfyng yn ei gerbyd o fewn y 28 diwrnod nesaf.

Gyrrwr Yl

Ystyriodd y panel y dystiolaeth a gyflwynwyd, a chredai nad oedd y rhybudd a gafodd yr ymgeisydd yn effeithio ar y gyrrwr yn cael ei ystyried yn berson addas a phriodol i ddal trwydded. Cytunodd y panel felly i roi trwydded i'r gyrrwr, ar yr amod y byddai teledu cylch cyfyng yn cael ei osod yn ei gar o fewn y 28 diwrnod nesaf

Ymgynghoriad

Ddim yn berthnasol.

Gweithredir gan: Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio

Amserlen Weithredu: Ar unwaith
